# Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

# Sut i Ddefnyddio'r Cyfyngiadau – Canllaw i Ffermwyr a Rheolwyr Tir

## Cynnwys


**Cyflwyniad**

1.1. Pwy ddylai ddarllen y llyfryn hwn?
1.2. Beth yw tir mynediad?
1.3. Pa hawliau sydd gan y cyhoedd?
1.4. Pam mynd ati i gyfyngu ar yr hawl mynediad?

**2. Rheoli Mynediad**

**3. Gwiriwch Cyn Bwr Ymlaen**

3.1. A oes caniatâd i chi gyfyngu ar yr hawl ar y tir?
3.2. Pethau eraill i'w hystyried cyn bwrw ymlaen

**4. Rhai Diffiniadau**

4.1. Tenant
4.2. Perchennog
4.3. Person(au) â budd mewn tir
4.4. Diffinio cyfnodau
4.5. Diffinio darnau o dir
4.6. Yr awdurdod perthnasol
4.6.1. Parciau Cenedlaethol
4.6.2. Y tu allan i Barciau Cenedlaethol
4.6.3. Coetiroedd

**5. Opsiynau ar gyfer Cyfyngu ar yr Hawl Mynediad**

**6. Cyfyngiadau Dewisol – Nid oes Angen Caniatâd**

6.1. Yr Opsiwn 28 Diwrnod

6.1.1. Pwy sydd â'r hawl i ddefnyddio'r opsiwn 28 diwrnod?

6.1.2. Cyfyngiadau ar yr opsiwn 28 diwrnod
6.1.3. Rhesymau dros ddefnyddio’r opsiwn 28 diwrnod
6.1.4. Y caniatâd sydd ei angen ar gyfer yr opsiwn 28 diwrnod
6.1.5. Rhoi hysbysiad ynghylch cyfyngiad neu waharddiad 28 diwrnod a’r terfynau amser
6.1.6. Ailadrodd gwaharddiadau a chyfyngiadau
6.1.7. Dileu hysbysiad
6.1.8. Rhoi gwybod i’r cyhoedd am gyfyngiad neu waharddiad

6.2. Gwahardd Cŵn yn ystod y Cyfnod Wyna
6.2.1. Pwy sydd â’r hawl i wahardd cŵn yn ystod y cyfnod wyna?
6.2.2. Rhesymau dros ddefnyddio’r opsiwn wyna
6.2.3. Disgrifiad o’r opsiwn wyna
6.2.4. Y caniatâd sydd ei angen ar gyfer yr opsiwn wyna
6.2.5. Rhoi hysbysiad ynghylch yr opsiwn wyna
6.2.6. Dileu hysbysiad ynghylch cyfyngiad wyna
6.2.7. Rhoi gwybod i’r cyhoedd am gyfyngiad wyna

6.3. Gwahardd Cŵn oherwydd Grugieir
6.3.1. Pwy sydd â’r hawl i wahardd cŵn ar rostiroedd sy’n cael eu rheoli ar gyfer grugieir?
6.3.2. Rhesymau dros ddefnyddio’r opsiwn rhostiroedd sy’n cael eu rheoli ar gyfer grugieir
6.3.3. Disgrifiad o’r opsiwn rhostiroedd grugieir
6.3.4. Rhoi hysbysiad ynghylch yr opsiwn rhostiroedd grugieir
6.3.5. Dileu hysbysiad ynghylch cyfyngiad rhostiroedd grugieir
6.3.6. Rhoi gwybod i’r cyhoedd am gyfyngiad rhostiroedd grugieir

**7. Ceisiadau i Eithrio neu Gyfyngu ar yr Hawl Mynediad**

7.1. Pwy all wneud cais?
7.2. Rhesymau dros wneud cais
7.3. Sut i wneud cais
7.4. Amseriad y broses a therfynau amser
7.5. Sut y byddwn yn asesu eich cais
7.6. Ymgynghori

**8. Cyfarwyddiadau o ran Cyfyngu ar Fynediad neu ei Wahardd**

8.1. Eich hysbysu ynghylch ein penderfyniad
8.2. Manylion mewn cyfarwyddyd i gyfyngu ar fynediad neu ei wahardd
8.3. Cyfarwyddiadau amlinellol i gyfyngu ar fynediad neu ei wahardd
8.4. Adolygu a newid cyfarwyddiadau i gyfyngu ar fynediad neu ei wahardd
8.5. Rhoi gwybod am gyfarwyddyd i eraill

**9. Apeliadau**

9.1. Rhesymau dros apelio
9.2. Sut i apelio
9.3. Manylion cyswllt Yr Arolygiaeth Gynllunio
9.4. Terfynau amser yr apeliadau

9.5. Canlyniadau’r apeliadau

**10. Rhoi Gwybod i’r Cyhoedd**

10.1. Y we
10.2. Arwyddion

**11. Gwybodaeth Gyffredinol**

11.1. Cyfrifoldebau meddianwyr ar dir mynediad
11.2. Sut mae gwaharddiadau a chyfyngiadau yn effeithio ar gyfrifoldebau meddianwyr?
11.3. Asesu risg
11.4. Llwybrau cyhoeddus
11.5. Caniatâd arall
11.6. Cyfyngiadau cyffredinol
11.7. Adnabod tir mynediad

**Cyflwyniad**

Mae'r arweiniad hwn yn esbonio sut y gellir cyfyngu ar fynediad ar 'dir mynediad' a gaiff ei greu gan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae'n rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir i chi, mae'n esbonio'r ffyrdd gwahanol o gyfyngu ar yr hawl, ac mae'n esbonio'r drefn y dylid ei dilyn ym mhob achos.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r opsiwn lleiaf cyfyngol sy'n cydweddu ag anghenion rheoli tir a'r angen i osgoi perygl i'r cyhoedd. Rydym yn gobeithio na fydd perchnogion ac eraill sydd â'r hawl i gyfyngu ar yr hawl mynediad ond yn gwneud hynny pan fydd atebion eraill yn anymarferol, neu pe baent yn creu baich gormodol. Efallai y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu eich awdurdod lleol eich cynorthwyo i gyflawni hyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y bydd rhai achosion i'w cael pan fydd angen cyfyngu ar yr hawl mynediad, a'n nod yw gwneud y broses honno mor syml â phosibl o fewn terfynau'r gyfraith.

I gael mwy o gyngor, cysylltwch â'ch awdurdod perthnasol trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd yr arweiniad hwn.

### 1.1. <u>Pwy ddylai ddarllen y llyfryn hwn?</u>

Mae'r llyfryn ar gyfer pobl sy'n berchen ar 'dir mynediad', y rhai sy'n ei ffermio a'r rhai sy'n ei reoli. Mae'n esbonio sut i gyfyngu ar yr hawl mynediad pan fo angen er mwyn osgoi gwrthdaro â dulliau rheoli tir neu er mwyn osgoi perygl i'r cyhoedd.

### 1.2. <u>Beth yw tir mynediad?</u>

Mae tir mynediad yn cynnwys tir comin cofrestredig a chefn gwlad agored, fel y cânt eu mapio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, mae'n cynnwys tir y mae perchnogion yn ei gyflwyno fel tir mynediad dan adran 16 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Nid yw tir mynediad yn cynnwys ardaloedd sydd â hawl mynediad eisoes dan ddeddfau eraill, fel tiroedd comin trefol. Nid yw ychwaith yn cynnwys rhai mathau o dir sy'n cael eu heithrio gan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy oherwydd rhesymau'n ymwneud â phreifatrwydd neu ddulliau rheoli, neu am eu bod wedi cael eu datblygu.

Mae'r pwerau i gyfyngu ar hawl mynediad y cyhoedd ond yn berthnasol i dir lle mae hawl mynediad wedi cael ei adnabod o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Nid ydynt yn berthnasol i unrhyw dir arall na chwaith i unrhyw lwybrau â hawliau tramwy cyhoeddus.

Mae adran 11.7 y llyfryn hwn yn esbonio pa ddarnau o dir sydd ddim yn cael eu hystyried yn dir mynediad.

### 1.3. <u>Pa hawliau sydd gan y cyhoedd?</u>

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd ar dir mynediad at ddibenion hamddena awyr agored. Mae eu hawl i fynd ar droed yn cynnwys gweithgareddau fel dringo, rhedeg, gwylio adar a mynd ar bicnic.

Er mwyn ceisio osgoi gwrthdaro posibl â dulliau rheoli tir, mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cyfyngu ar yr hawl mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, ceir rheolau ynglŷn â pheidio â gadael i gŵn darfu ar bobl sy'n mynd i'r afael â gweithgareddau cyfreithiol. Mae'r llyfryn hwn yn esbonio'r cyfyngiadau cyffredinol hyn yn llawn yn adran 11.6.

## 1.4. <u>Pam mynd ati i gyfyngu ar yr hawl mynediad?</u>

Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cynnwys pwerau i gyfyngu ar yr hawl mynediad pan fo angen fel y gellir rheoli'r tir neu osgoi perygl i'r cyhoedd.

Os ydych yn rheoli tir, fel arfer byddwch yn gwybod pryd y gall mynediad greu gwrthdaro. Efallai y gallwch oresgyn problemau trwy reoli'r mynediad yn hytrach na'i wahardd.

## 2. Rheoli Mynediad

Fe ddaw pobl sy'n ymweld â chefn gwlad ag incwm i'r economi wledig yn eu sgîl. Maent hefyd yn cael mwynhad mawr o ganlyniad i'w hymweliadau. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dymuno ymddwyn mewn ffordd briodol – ond maent angen eich cymorth chi. Dyma'r cwestiynau mwyaf defnyddiol i'w hystyried os oes gan bobl hawl i fynd ar eich tir:

I ble y gall pobl fynd ar fy nhir?
Pa reolau sy'n berthnasol i bobl tra'u bod nhw ar fy nhir?
Beth yw fy hawliau a'm cyfrifoldebau i tuag at bobl eraill ar fy nhir?
A oes yna unrhyw berygl i ddiogelwch y bobl ar fy nhir, a sut y byddwn yn delio â'r peryglon hyn?
Sut y gallaf gynorthwyo pobl i ddod ar fy nhir yn gyfrifol a'u cynorthwyo i gadw at y Côd Cefn Gwlad?
Pa gymorth a chyngor sydd ar gael i mi?

Gallwch gael mwy o gyngor ynghylch rheoli mynediad gan eich awdurdod lleol, eich awdurdod Parc Cenedlaethol neu o wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 3. Gwiriwch Cyn Bwrw Ymlaen

Mae'r rheolau sy'n ymwneud â chyfyngu ar fynediad yn ei gwneud yn synhwyrol i chi ystyried nifer o bethau cyn ceisio cyfyngu ar yr hawl mynediad ar ddarn o dir. Yn arbennig, rhaid i chi wybod a oes gennych hawl i gyfyngu ar yr hawl mynediad yn y ffordd yr ydych yn bwriadu gwneud hynny, a rhaid i chi ystyried goblygiadau'r cyfyngiad.

### 3.1. A oes gennych ganiatâd i gyfyngu ar yr hawl mynediad ar y tir?

A yw'r tir yn 'dir mynediad' yn ôl yr ystyr a geir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy? Os nad tir felly mohono, nid yw'r pwerau i gyfyngu ar fynediad yn berthnasol.

A oes gennych fudd yn y tir? Dim ond os oes gennych fudd o'r fath, fel y rhai a ddiffinnir yn adran 4.3 y llyfryn hwn, y gallwch ddefnyddio pwerau i gyfyngu ar fynediad.

### 3.2. Pethau eraill i'w hystyried cyn bwrw ymlaen

Cofiwch efallai y bydd angen mathau eraill o ganiatâd i fynd i'r afael â gwaith ar y tir. Er enghraifft, a yw'r tir yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a ydych angen trwydded i gwympo coed gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu ganiatâd cynllunio?

A ydych wedi ystyried ffyrdd eraill o ddelio â'r broblem ac wedi dod i'r casgliad mai cyfyngu ar yr hawl mynediad yw'r opsiwn mwyaf effeithiol i chi?

A yw'r cyfyngiad yr ydych ei angen eisoes yn dod dan adain un o'r cyfyngiadau cyffredinol, fel y rheolau ynghylch cadw cŵn ar dennyn? Mae adran 11.6 yn disgrifio manylion y cyfyngiadau cyffredinol.

Mae'r pwerau a geir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ond yn gallu cyfyngu ar yr hawl mynediad newydd ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored. Ni ellir eu defnyddio i gyfyngu ar weithgareddau eraill, fel beicio neu grog-farcuta, neu ffyrdd eraill o dresmasu.

Ni fydd cyfyngiad yn effeithio ar fynediad mewn unrhyw ffordd ar hyd llwybrau â hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi'r tir. Rhaid i chi fod yn ofalus dros ben i beidio â chamarwain y cyhoedd i feddwl bod cyfyngiad yn berthnasol i lwybr cyhoeddus yn ogystal ag i'r tir y mae'n ei groesi.

Ni fydd eich dyletswydd gofal llai, dan Ddeddf Cyfrifoldeb Meddianwyr 1957 a 1984, yn berthnasol tra cyfyngir ar yr hawl mynediad. Gweler y manylion yn adran 11.2.

Fe fyddwch yn gyfrifol am roi gwybod i'r cyhoedd ar y tir ynghylch unrhyw gyfyngiadau sy'n effeithio ar eu hawliau mynediad am lai na 6 mis. Mae hyn yn cynnwys gosod hysbysiadau a'u tynnu i lawr. Efallai y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu eich awdurdod lleol yn dymuno eich cynorthwyo â hyn.

Fe fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi manylion ynghylch y cyfyngiadau ar ei wefan, oni bai iddi fod yn anymarferol i wneud hynny.

## 4. Rhai Diffiniadau

Mae'r rhan fwyaf o'r termau, fel 'tenant' neu 'berchennog', yn glir i'r rhan fwyaf o bobl y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, er mwyn cynnig cymorth mewn achosion lle ceir amheuaeth, dyma'r diffiniadau a geir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy:

### 4.1. Tenant

Tenant dan denantiaeth busnes fferm o fewn yr ystyr a geir yn Neddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu denantiaeth lle mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn berthnasol.

### 4.2. Perchennog

Y perchennog yw unrhyw un, ar wahân i'r morgeisedig nad yw'r eiddo yn ei feddiant, sydd â'r hawl i dderbyn crogrent y tir, naill ai drwy ei hawl ei hun, neu fel ymddiriedolwr ar ran person arall.

### 4.3. Person â budd mewn tir

Dyma a ddywed y Ddeddf: "An interest in land includes any estate in land and any right over land, whether the right is exercisable by virtue of the ownership of an estate or interest in land or by virtue of a licence or agreement, and in particular includes rights of common and sporting rights."

Mae hyn yn cynnwys perchnogion, cominwyr, pobl â hawliau hela ac eraill â thrwyddedau neu gytundebau'n ymwneud â'r tir. Os ydych yn ansicr a yw unrhyw un o'r diffiniadau hyn yn berthnasol i chi, fe allwch geisio cyngor annibynnol.

### 4.4. Diffinio cyfnodau

Mae'r drefn ar gyfer cyfyngu ar yr hawl mynediad yn cynnwys cyfnodau penodol ar gyfer rhoi rhybudd ymlaen llaw ac ar gyfer ymateb i gynigion.

Cyfeiria rhai o'r cyfnodau hyn at "ddyddiau gwaith", sy'n *golygu* unrhyw ddiwrnod o Ddydd Llun i Ddydd Gwener ac eithrio Diwrnod Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ŵyl y banc.

Pan eir ati i nodi cyfnod, caiff y cyfnod hwnnw ei gyfrif o'r dyddiad ar ôl y diwrnod cychwyn. Er enghraifft, fe fyddai cyfnod o bedair wythnos sydd â dyddiad cychwyn o Ddydd Mercher yn gorffen ar Ddydd Iau bedair wythnos yn ddiweddarach. Dylid trin rhybudd a roddir ar ôl 4.30pm ar ddiwrnod gwaith fel un a roddir ar y diwrnod gwaith canlynol.

Ni all terfynau amser ddigwydd ar Ddydd Sul, ar Ddydd Nadolig, ar Ddydd Gwener y Groglith, ar ŵyl y banc neu ar ddyddiad a bennir ar gyfer diolchgarwch neu alar cyhoeddus. Er mwyn osgoi dyddiau o'r fath, fe fyddai'r terfyn amser yn symud i'r dyddiad addas nesaf.

### 4.5. Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi pwerau i gyfyngu ar hawl mynediad mewn 2 brif ffordd:

Gwahardd yn gyfan gwbl yr hawl mynediad ar bob rhan o'r tir – sef gwaharddiad.

Cyfyngu'r hawl heb ei wahardd yn gyfan gwbl – sef cyfygniad

Rhoddir mwy o fanylion ar waharddiadau a chyfyngiadau yn Adran 5.

## 4.6. Diffinio darnau o dir

Fe ellir cael cyfyngiad neu waharddiad ar unrhyw ddarn o dir. Mae'r arweiniad hwn yn cymryd yn ganiataol y byddwch fel rheol yn cyflwyno cyfyngiadau neu waharddiadau ar ddarnau o dir sydd eisoes wedi eu diffinio'n eglur ar y ddaear, yn enwedig lleiniau o dir sydd â nodweddion ffisegol yn eu terfynu, fel gwrychoedd, ffensys, waliau a ffyrdd. Fodd bynnag, ar ddarnau mawr o dir, efallai y byddwch angen ystyried nodweddion eraill. Er enghraifft, llwybrau, cefnau, nentydd ac ymylon coetiroedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn argymell y dylech ddefnyddio'r nodweddion cliriaf posibl, fel y gall ymwelwyr ddod o hyd i'r llecynnau'n rhwydd.

## 4.7. Yr awdurdod perthnasol

Rhestrir pump o awdurdodau perthnasol isod, sef awdurdodau sy'n rheoli cyfyngiadau yng Nghymru. Trwy gydol y ddogfen hon, mae'r term "ni" yn cyfeirio at yr awdurdod perthnasol sy'n ymwneud â'ch tir.

### 4.7.1. Parciau Cenedlaethol

Os yw eich tir o fewn Parc Cenedlaethol, un o blith y tri o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fydd eich awdurdod perthnasol.

### 4.7.2. Y tu allan i Barciau Cenedlaethol

Os nad yw eich tir o fewn Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru fydd eich awdurdod perthnasol.

### 4.7.3. Coetiroedd

Os ydych wedi cyflwyno coetir fel tir mynediad, Cyfoeth Naturiol Cymru fydd eich awdurdod perthnasol (hyd yn oed os yw o fewn terfyn Parc Cenedlaethol). Os nad yw eich coetir wedi ei gyflwyno, ond ei fod yn dir mynediad sydd wedi ei fapio fel cefn gwlad agored neu dir comin cofrestredig, Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu Cyfoeth Naturiol Cymru fydd eich awdurdod perthnasol, yn dibynnu a yw'r tir o fewn Parc Cenedlaethol neu'r tu allan iddo.

## 5. Opsiynau ar gyfer Cyfyngu ar yr Hawl Mynediad

Gall cyfyngiad olygu cyfyngu ar yr hawl mynediad mewn nifer o ffyrdd gwahanol, yn enwedig drwy:

- Gyfyngu'r hawl mynediad at lwybrau penodol.
- Ganiatáu mynediad at dir mynediad agored mewn man(nau) penodol yn unig.
- Ganiatáu mynediad dim ond i'r bobl hynny sydd heb fod â chŵn gyda nhw. Yn y cyhoeddiad hwn rydym hefyd wedi defnyddio'r term 'ac eithrio cŵn' er mwyn sicrhau eglurder.
- Osod unrhyw amodau rhesymol eraill y bydd angen i bobl eu bodloni
- Mae pwerau gan rai perchnogion ac eraill sydd â budd mewn tir i gyfyngu ar yr hawl mynediad, neu ei gwahardd, heb gael caniatâd, cyn belled â'u bod yn dweud wrth yr awdurdod perthnasol ymlaen llaw. Hefyd, fe allant hwy ac eraill sydd â budd mewn tir wneud cais i wahardd yr hawl mynediad neu gyfyngu arni at y dibenion canlynol:
- Er mwyn galluogi'r sawl sy'n cyflwyno'r cais i fynd ati i reoli'r tir.
- Os oes angen, er mwyn atal tân pan fo'r tywydd yn eithriadol neu pan geir newid eithriadol yng nghyflwr y tir.
- Er mwyn osgoi perygl i'r cyhoedd yn sgîl unrhyw beth a wneir, neu a fwriedir ei wneud, ar y tir neu ar dir cyfagos.

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio sut y dylid defnyddio'r pwerau hyn.

## 6. Cyfyngiadau Dewisol – Nid oes angen Caniatâd

Mae tair ffordd y gallwch eu defnyddio i gyfyngu ar yr hawl mynediad heb gael caniatâd yr awdurdod perthnasol:
Yr opsiwn 28 diwrnod (adran 6.1).
Cyfyngu ar gŵn yn ystod y cyfnod wyna (adran 6.2)
Cyfyngu ar gŵn oherwydd grugieir (adran 6.3)

### 6.1. Yr Opsiwn 28 Diwrnod

#### 6.1.1. Pwy sydd â'r hawl i ddefnyddio'r opsiwn 28 diwrnod?

Dim ond y tenant neu, os nad oes tenant, y perchennog. Gweler y diffiniadau yn adrannau 4.1 a 4.2.

#### 6.1.2. Cyfyngiadau ar yr opsiwn 28 diwrnod

Fe allwch gyfyngu ar yr hawl neu ei gwahardd ar unrhyw ddarn o dir am hyd at 28 diwrnod mewn blwyddyn galendr.

Gallwch ddefnyddio'r dyddiau disgresiwn hyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, heblaw am yr adegau canlynol:
Ar wyliau banc, Diwrnod Nadolig neu Ddydd Gwener y Groglith.
Ar ragor na phedwar diwrnod penwthynos yn ystod un flwyddyn galendr.
Ar unrhyw ddydd Sadwrn rhwng 1 Mehefin ac 11 Awst; neu
Ar unrhyw ddydd Sul rhwng 1 Mehefin a 30 Medi.

Mae'r cyfyngiad 28 diwrnod yn berthnasol i bob darn o dir. Chi sy'n gyfrifol am benderfynu ar derfynau pob cyfyngiad, gan ddefnyddio nodweddion amlwg gobeithio. Gallwch ddiffinio ardaloedd gwahanol bob tro, gellir gorgyffwrdd ardaloedd, a gallwch gyfyngu ar fynediad ar fwy nag un ardal ar y tro.

Fe fydd yn rhaid i chi gadw cofnod o'r nifer o ddyddiau y byddwch yn cyfyngu ar fynediad ar bob darn o dir. Yn ogystal, sylwch fod y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy wedi ei geirio fel bod unrhyw gyfyngiad am unrhyw ran o'r dydd yn cyfrif fel diwrnod cyfan o fewn y 28 diwrnod sydd ar gael i chi.

Fel yr esbonnir isod, gallwch benderfynu ar union ddyddiad y cyfyngiad ar fyr rybudd, cyn belled â'ch bod yn ysgrifennu'r manylion cefndir o leiaf bum diwrnod gwaith cyn i'r cyfyngiad ddechrau.

#### 6.1.3. Rhesymau dros ddefnyddio'r opsiwn 28 diwrnod

Nid oes rhaid i chi gynnig unrhyw reswm dros ddefnyddio'r opsiwn hwn, ond fel arfer mae'n well esbonio'r cyfyngiad i'r cyhoedd. Fe rydd yr opsiwn yma y pŵer i chi gyfyngu ar yr hawl mynediad trwy roi llai o rybudd na phe baech yn gwneud cais i'r awdurdod perthnasol er mwyn cyfyngu ar yr hawl mynediad.

#### 6.1.4. Y caniatâd sydd ei angen ar gyfer yr opsiwn 28 diwrnod

Nid ydych angen caniatâd, ond rhaid i chi hysbysu'r awdurdod perthnasol cyn defnyddio'r opsiwn 28 diwrnod. Y peth gorau i'w wneud yw hysbysu'r awdurdod ddigon ymlaen llaw, fel y gellir rhybuddio'r cyhoedd mewn da bryd.

### 6.1.5. Rhoi hysbysiad ynghylch cyfyngiad neu waharddiad 28 diwrnod a'r terfynau amser

Fel arfer, rhaid i chi anfon eich hysbysiad fel y bydd yr awdurdod perthnasol yn ei dderbyn o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y byddwch yn cyfyngu ar yr hawl mynediad neu'n ei gwahardd. Fodd bynnag, fel yr esbonnir isod, efallai y gallwch ohirio eich penderfyniad ynghylch yr union ddyddiad tan yn nes at yr amser.

A fyddech gystal â defnyddio copi o'r ffurflen sydd ar gael gan eich awdurdod perthnasol. Sylwch mai dim ond rhai adrannau y mae angen i chi eu llenwi at y diben hwn. Fe fydd yn help os gallwch chi anfon yr wybodaeth gywir atom oherwydd fe fydd yn arbed amser gan na fydd yn rhaid i ni eich holi am wybodaeth goll. Dim ond pan fyddwn wedi derbyn yr wybodaeth briodol y bydd eich hysbysiad yn ddilys.

Er mwyn sicrhau dilysrwydd eich hysbysiad, rhaid i chi gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

Eich enw, eich cyfeiriad a'ch côd post.
Datganiad yn cadarnhau eich bod yn denant neu'n berchen ar y tir, a'ch bod, felly, â'r hawl i gyfyngu ar yr hawl mynediad ar y tir, neu ei wahardd.
Map yn dangos y tir y bydd y cyfyngiad neu'r gwaharddiad yn effeithio arno.
Datganiad yn dweud wrthym a ydych yn bwriadu gwahardd yr hawl mynediad, neu fanylion ynghylch sut y byddwch yn cyfyngu arni.
Y dyddiadau yr ydych yn bwriadu cyfyngu ar yr hawl mynediad, neu ei gwahardd.

Os ydych yn asiant yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, a fyddech gystal â chynnwys y manylion uchod ar gyfer eich cleient gan nodi hefyd eich enw a'ch cyfeiriad eich hun, gan gynnwys y côd post.

Rhaid i ni dderbyn yr wybodaeth uchod i gyd, ac eithrio'r dyddiadau, o leiaf bum diwrnod gwaith cyn i chi gyfyngu ar yr hawl mynediad neu ei gwahardd. Fe allwch ohirio ein hysbysu ynghylch y dyddiad tan yn ddiweddarach. Os nad ydych wedi penderfynu ar yr union ddyddiadau, mae'r ffurflen yn gofyn i chi nodi'n fras pryd yr ydych yn bwriadu cyfyngu ar yr hawl mynediad neu ei gwahardd. Gallwn roi'r wybodaeth hon ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y gall y cyhoedd gael mwy o rybudd ynghylch eich cynlluniau.

Byddwn yn cydnabod eich hysbysiad ac, os nad ydych eisoes wedi manylu ynghylch y dyddiadau, byddwn yn rhoi cyfarwyddiadau i chi ynghylch ein hysbysu ynglŷn â'r dyddiadau'n ddiweddarach. Fe fydd gennych y dewis o roi gwybod i ni am fanylion y dyddiadau dros y ffôn, trwy e-bost neu drwy'r post.

Mae'r rheoliadau'n caniatáu i ni dderbyn llai o rybudd pe baem yn penderfynu nad oedd yn ymarferol i rywun roi gwybod i ni bum diwrnod gwaith ymlaen llaw. Fe fyddai hyn yn berthnasol fel arfer pe bai sefyllfa'n codi lle na allai'r meddiannwr fod wedi rhagweld hyn yn ddigon buan i roi rhybudd o bum diwrnod i ni.

### 6.1.6. Ailadrodd gwaharddiadau a chyfyngiadau

Os ydych yn dymuno ailadrodd cyfyngiad neu waharddiad ar yr un darn o dir, dim ond ein hysbysu ynghylch y dyddiadau newydd y bydd yn rhaid i chi ei wneud, gan ddyfynnu cyfeirnod y cyfyngiad gwreiddiol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i chi ein hysbysu ynghylch y manylion newydd o fewn y terfyn amser o bum diwrnod os ydych yn bwriadu cyfyngu ar yr hawl mynediad neu ei gwahardd ar ardal wahanol, neu gyfyngu arni mewn ffordd wahanol.

### 6.1.7. Dileu hysbysiadau

Mae gennych y dewis o ddileu hysbysiadau pe baech yn penderfynu yn erbyn cyfyngu ar yr hawl ar ddyddiadau yr ydych eisoes wedi hysbysu'r awdurdod perthnasol yn eu cylch. Fe allwch wneud hyn hyd at bum gwaith y flwyddyn er mwyn arbed gwastraffu dim o'r dyraniad 28 diwrnod sy'n berthnasol i ddarn o dir. Sylwch mai dim ond pan fyddwch yn cadarnhau'r union ddyddiau y bydd y dyddiau'n cael eu cyfrif fel rhan o'r dyraniad 28 diwrnod.

I ddileu hysbysiad, rhaid i chi anfon manylion atom yn ysgrifenedig (trwy e-bost neu drwy'r post), a rhaid i ni dderbyn y rhain o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn i'r cyfyngiad neu'r gwaharddiad ddod i rym. Dim ond y *dyddiadau* y byddwn yn eu canslo; byddwn yn cadw cofnod o'r manylion eraill rhag ofn y byddwch yn dymuno cyflwyno'r un cyfyngiad neu'r un gwaharddiad eto yn y dyfodol.

### 6.1.8. Rhoi gwybod i'r cyhoedd am gyfyngiad neu waharddiad

Yn ogystal, fe fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi manylion y cyfyngiad neu'r gwaharddiad ar wefan, oni fydd gwneud hyn yn anymarferol. Fel arfer, fe fydd hi'n ymarferol gwneud hyn, ac eithrio pan fyddwn yn derbyn y dyddiadau'n rhy hwyr i'w rhoi ar y wefan.

Chi fydd yn gyfrifol am ddweud wrth y cyhoedd, allan ar y tir, os ydych yn dymuno gorfodi'r cyfyngiad neu'n gwaharddiad. Os ydych yn dymuno gorfodi'r cyfyngiad neu'r gwaharddiad, rhaid i chi hysbysu pobl sydd naill ai ar fin dod ar y tir neu sydd arno'n barod. Gallwch ddweud wrthynt ar lafar neu fe allwch osod hysbysiad yn rhywle. Rhaid i unrhyw hysbysiad gynnwys yr adegau pan fydd y cyfyngiad neu'r gwaharddiad mewn grym yn ogystal â manylion y cyfyngiad, a rhaid nodi ar ba dir y bydd yn effeithio.

Fel rheol byddwn yn anfon hysbysiadau safonol atoch pan fyddwn yn cydnabod eich hysbysiad ynghylch y cyfyngiad.

## 6.2. Gwahardd Cŵn yn Ystod y Cyfnod Wyna

Mae’r hawl mynediad yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gadw eu cŵn ar dennyn byr ym mhob man pan fyddant yn ymyl da byw ac ar unrhyw adeg rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf. Mae tennyn byr yn dennyn o hyd penodol sy’n mesur hyd at 2 fetr. Mae’r opsiwn hwn yn eich galluogi i fynd ymhellach trwy wahardd cŵn yn gyfan gwbl adeg wyna.

Mae’r opsiwn yma i wahardd cŵn adeg wyna yn ychwanegol at yr opsiwn 28 diwrnod. Nid yw’r cyfyngiadau sy’n ymwneud â phenwythnosau a gwyliau cyhoeddus yn berthnasol i’r opsiwn hwn. Pe bai angen, fe allai cyfyngiad 28 diwrnod fod mewn grym ar yr un darn o dir ac ar yr un adeg ag y caiff cŵn eu gwahardd oherwydd wyna, er enghraifft er mwyn cyfyngu pobl at lwybr penodol sy’n arwain drwy cae ond mae’r cyfynigad 28 diwrnod yn dal i fod yn berthnasol.

### 6.2.1. Pwy sydd â’r hawl i wahardd cŵn yn ystod y cyfnod wyna?

Dim ond y tenant neu, os nad oes tenant, y perchennog. Gweler y diffiniadau yn adrannau 4.1 a 4.2.

### 6.2.2. Rhesymau dros ddefnyddio’r opsiwn wyna

Efallai eich bod yn dymuno cael dulliau diogelu pellach er mwyn gwarchod eich defaid rhag y cŵn yn ystod y cyfnod wyna.

### 6.2.3. Disgrifiad o’r opsiwn wyna

Mae’r opsiwn hwn yn dileu hawl y cyhoedd i fynd â chŵn ar eich caeau a’ch tir caeëdig pan fo defaid i’w cael yno.

Dim ond i gaeau neu dir caeëdig sydd hyd at 15 hectar (oddeutu 37 acer) o faint y mae hyn yn berthnasol.

Fe allwch gyflwyno’r cyfyngiad hwn am un cyfnod o 6 wythnos bob blwyddyn.

Fe allwch gyflwyno’r opsiwn hwn ar faint bynnag o gaeau ag sy’n angenrheidiol, cyn belled nad oes yr un yn fwy na 15 hectar o faint.

Nid yw hyn yn berthnasol i gŵn tywys neu gŵn clywed sydd wedi eu hyfforddi.

Ar wahân i’r cyfyngiad 6 wythnos, ni cheir unrhyw reolau sy’n deddfu ynghylch y dyddiau y gallwch gyflwyno’r cyfyngiad.

Nid yw’r cyfyngiadau a gyflwynir dan yr opsiwn hwn yn cyfrif tuag at eich dyraniad 28 diwrnod.

### 6.2.4. Y caniatâd sydd ei angen ar gyfer yr opsiwn wyna

Nid ydych angen caniatâd, ond rhaid i chi hysbysu eich awdurdod perthnasol cyn defnyddio’r opsiwn wyna.

### 6.2.5. Rhoi hysbysiad ynghylch yr opsiwn wyna

Rhaid i chi hysbysu eich awdurdod perthnasol yn ysgrifenedig, gan sicrhau ei fod yn derbyn eich hysbysiad o leiaf bum diwrnod cyn i’r cyfyngiad ddechrau.

Rhaid i chi gyflwyno’r un manylion â’r rheiny ar gyfer yr opsiwn 28 diwrnod, ac fe allwch ddefnyddio’r un ffurflen sydd ar gael gan eich awdurdod perthnasol.

Gallwch roi gwybod i ni am y dyddiadau’n ddiweddarach, ond rhaid i ni dal dderbyn y dyddiadau’n ysgrifenedig o leiaf bum diwrnod cyn i’r cyfyngiad ddechrau.

Byddwn yn cadw cofnod o fanylion y cyfyngiad cyntaf a gyflwynwch, felly dim ond rhoi gwybod i ni am y dyddiadau y bydd yn rhaid i chi ei wneud os byddwch yn ailadrodd yr un cyfyngiad ar yr un tir yn y dyfodol.

### 6.2.6. Dileu hysbysiad ynghylch cyfyngiad wyna

Gallwch ddileu hysbysiad sy’n ymwneud â chyfyngiad wyna trwy ysgrifennu at eich awdurdod perthnasol unrhyw dro cyn iddo ddod i ben.

### 6.2.7. Rhoi gwybod i’r cyhoedd am gyfyngiad wyna

Dylid dilyn yr un drefn â threfn yr opsiwn 28 diwrnod.

### 6.3. Gwahardd Cŵn Oherwydd Grugieir

Mae'r opsiwn o wahardd cŵn oherwydd grugieir yn ychwanegol at yr opsiwn 28 diwrnod. Nid yw'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â phenwythnosau a gwyliau cyhoeddus yn berthnasol i'r opsiwn hwn lle caiff cŵn eu gwahardd oherwydd grugieir. Pe bai angen, fe allai cyfyngiad 28 diwrnod fod mewn grym ar yr un darn o dir ac yn ystod yr un adeg ag y caiff cŵn eu gwahardd oherwydd grugieir ond mae'r cyfyngiadau 28 diwrnod yn dal i fod yn berthnasol.

#### 6.3.1. Pwy sydd â'r hawl i wahardd cŵn ar rosydd lle ceir grugieir?

Y perchennog yn unig. Gweler y diffiniadau yn adran 4.2.

#### 6.3.2. Rhesymau dros ddefnyddio'r opsiwn rhostiroedd grugieir

Mae'r hawl mynediad yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gadw eu cŵn ar dennyn byr ym mhob man pan fyddant yn ymyl da byw ac ar unrhyw adeg rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf. Mae tennyn byr yn dennyn o hyd penodol sy'n mesur hyd at 2 fetr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn fod gofyn i bobl gadw'u cŵn ar dennyn yn ystod y tymor nythu yn fesur digonol i ddiogelu adar sy'n nythu ar y ddaear.

#### 6.3.3. Disgrifiad o'r opsiwn rhostiroedd grugieir

Dim ond ar dir sy'n rhostir ac sy'n cael ei reoli at y diben o fridio a saethu grugieir y mae'r opsiwn hwn ar gael.

Gall y cyfyngiad bara am hyd at bum mlynedd.

#### 6.3.4. Rhoi hysbysiad ynghylch yr opsiwn rhostiroedd grugieir

Rhaid i chi hysbysu eich awdurdod perthnasol yn ysgrifenedig, gan sicrhau ei fod yn derbyn eich hysbysiad o leiaf 28 diwrnod cyn i'r cyfyngiad ddechrau.

Rhaid i chi gyflwyno'r un manylion â'r rheiny ar gyfer yr opsiwn 28 diwrnod, ac fe allwch ddefnyddio'r un ffurflen, sydd ar gael gan eich awdurdod perthnasol.

Gallwch roi gwybod i ni am y dyddiadau'n ddiweddarach, ond rhaid i ni dderbyn y dyddiadau'n ysgrifenedig o leiaf 28 diwrnod cyn i'r cyfyngiad ddechrau.

Byddwn yn cadw cofnod o fanylion y cyfyngiad cyntaf a gyflwynwch, felly dim ond rhoi gwybod i ni am y dyddiadau y bydd yn rhaid i chi ei wneud os byddwch yn ailadrodd yr un cyfyngiad ar yr un tir yn y dyfodol.

#### 6.3.5. Dileu hysbysiad ynghylch cyfyngiad rhostiroedd grugieir

Gallwch ddileu hysbysiad sy'n ymwneud â chyfyngiad grugieir trwy ysgrifennu at eich awdurdod perthnasol unrhyw dro cyn iddo ddod i ben.

#### 6.3.6. Rhoi gwybod i'r cyhoedd am gyfyngiad rhostiroedd grugieir

Dylid dilyn yr un drefn â threfn yr opsiwn 28 diwrnod.

## 7. Ceisiadau i Wahardd yr Hawl Mynediad neu i Gyfyngu arni

Fe all pobl sydd â budd yn y tir (gweler y diffiniad yn adran 4.3) ofyn i'r awdurdod perthnasol gyfyngu ar yr hawl mynediad neu ei gwahardd. Nid oes cyfyngiad o gwbl ar y dyddiau y gellir cyflwyno cyfyngiadau o'r fath. Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cynnig yr opsiwn hwn gan na ellir delio â phob sefyllfa wrth ddefnyddio'r opsiynau dewisol a ddisgrifir ym Mhennod 6.

Fe fydd yr awdurdod perthnasol yn asesu pob cais yn ôl meini prawf safonol – meini prawf y mae holl awdurdodau perthnasol Cymru wedi cytuno arnynt. Gall yr awdurdod perthnasol addasu neu wrthod unrhyw gynnig i gyfyngu ar yr hawl mynediad, ond mae gan y sawl sydd wedi gwneud cais hawl i apelio.

Fe rydd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy bwerau i gyfyngu ar yr hawl mynediad mewn dwy brif ffordd:

Gwahardd yr hawl mynediad yn llwyr ar bob rhan o ardal o dir – gwaharddiad.
Cyfyngu ar yr hawl heb ei gwahardd yn llwyr – cyfyngiad.

Fe all cyfyngiad gyfyngu ar yr hawl mewn nifer o ffyrdd, yn enwedig trwy:

- gyfyngu ar yr hawl mynediad fel ei bod ar lwybrau neu ffyrdd a nodir.
- ganiatáu mynediad at dir agored mewn man(nau) penodol yn unig.
- ganiatáu mynediad dim ond i'r bobl hynny sydd heb fod â chŵn gyda nhw; neu
- bennu unrhyw amodau rhesymol y mae'n rhaid i bobl gadw atynt.

### 7.1. Pwy all wneud cais?

Unrhyw un sydd â budd yn y tir, yn cynnwys perchnogion, tenantiaid, cominwyr, pobl â hawliau hela ac eraill â thrwyddedau neu gytundebau sy'n berthnasol i'r tir. Gweler y diffiniad yn adran 4.3.

### 7.2. Rhesymau dros wneud cais

Fe allwch wneud cais i wahardd yr hawl neu i gyfyngu arni at y dibenion canlynol:

- Er mwyn galluogi'r sawl sy'n cyflwyno'r cais i fynd ati i reoli'r tir.
- Os oes angen, er mwyn atal tân pan fo'r tywydd yn eithriadol neu pan geir newid eithriadol yng nghyflwr y tir.
- Er mwyn osgoi perygl i'r cyhoedd yn sgîl unrhyw beth a wneir, neu a fwriedir ei wneud, ar y tir neu ar dir cyfagos.

### 7.3. Sut i wneud cais

Defnyddiwch gopi o'r ffurflen sydd ar gael gan eich awdurdod perthnasol.

Fe fydd y ffurflen yn eich cynorthwyo i anfon yr wybodaeth gywir atom ac yn arbed amser gan na fydd yn rhaid i ni eich holi am wybodaeth goll. Dim ond pan fyddwn wedi derbyn yr wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau y bydd eich cais yn ddilys.

Er mwyn sicrhau ei ddilysrwydd, rhaid i'ch cais fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Eich enw, eich cyfeiriad a'ch côd post.
- Datganiad yn cadarnhau bod gennych fudd yn y tir (fel y diffinnir yn adran 4.3) a bod gennych, felly, hawl i wneud cais.
- Os yw eich budd yn hawl sy'n ymwneud â thir comin neu'n hawl debyg dros dir, disgrifiad o hyd a lled yr hawl.
- Datganiad yn cadarnhau a ydych yn gwneud cais at y diben o reoli tir, at y diben o osgoi perygl i'r cyhoedd neu at y diben o atal tân.
- Manylion ynghylch diben y cyfyngiad neu'r gwaharddiad, a sut yr ydych yn dymuno gwahardd yr hawl mynediad neu gyfyngu arni.
- Os oes gennych hawl i ddefnyddio'r opsiwn 28 diwrnod, esboniad o sut yr ydych wedi ei ddefnyddio neu'n bwriadu ei ddefnyddio ar y darn hwnnw o dir.
- Map yn dangos y tir dan sylw. Fel arall, fe allwch roi i ni gyfeirnod unrhyw ddarn o dir yr ydym eisoes wedi ei gofnodi ar eich cyfer, sef tir yn ymwneud â hysbysiadau ynghylch cyfyngiadau dewisol yr ydych wedi dweud wrthym amdanynt.
- Y dyddiadau yr ydych yn dymuno gwahardd yr hawl mynediad neu gyfyngu arni.

Os ydych yn ansicr ynghylch yr union ddyddiadau, mae'r ffurflen gais yn caniatáu i chi nodi sawl diwrnod y byddwch ei angen o fewn cyfnod penodol. Efallai y byddwn yn cytuno ar gyfyngiad neu waharddiad sy'n caniatáu i chi ei roi ar waith trwy ddefnyddio uchafswm o ddyddiau pe bai amodau penodol yn cael eu bodloni. Gweler adran 8.3 i gael manylion ynghylch sut y gellir defnyddio'r cyfarwyddiadau 'amlinellol' hyn i gyfyngu ar waith mynediad neu ei wahardd.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi am fwy o wybodaeth fel y gallwn asesu eich cais yn iawn.

Os ydych yn asiant yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, a fyddech gystal â chynnwys y manylion uchod ar gyfer eich cleient gan nodi hefyd eich enw a'ch cyfeiriad eich hun, gan gynnwys y côd post.

### 7.4. <u>Amseriad y broses a therfynau amser</u>

Mae'n rhaid i ni wneud ein penderfyniad o fewn y terfynau amser a ganlyn:
6 wythnos ar gyfer cyfyngiadau a gwaharddiadau a fyddai'n para am hyd at 6 mis.
16 wythnos ar gyfer cyfyngiadau a gwaharddiadau a fyddai – neu a allai – bara am fwy na 6 mis.

Fe fydd y terfynau amser hyn yn cychwyn ar ôl i ni gael yr holl wybodaeth angenrheidiol y mae'n rhaid i chi ei hanfon atom i wneud eich cais yn ddilys.

Nid yw'r terfynau amser yn cynnwys yr amser ychwanegol y bydd Yr Arolygiaeth Gynllunio ei angen i ystyried unrhyw apeliadau y gallwch eu cyflwyno pe baech yn anghytuno â'n penderfyniad. Fe fydd yn rhaid i chi adael llawer mwy o amser i gael clywed canlyniad apêl.

Rydym bob amser yn ceisio gwneud penderfyniadau yn gynt na hyn pan fo modd.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ymestyn y terfyn amser os yw'r cynnig yn gymhleth neu'n arbennig o bwysig. Ni fyddai'n rhaid i chi gytuno i wneud hyn, ond efallai y byddai'n rhoi amser i ni drefnu atebion eraill a fyddai'n cyfyngu llai ar y mynediad ac a fyddai'n fwy defnyddiol i chi.

### 7.5. Sut y byddwn yn asesu eich cais

Byddwn yn asesu eich cais gan ddefnyddio'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004. Yn arbennig, fe fyddwn yn:

Gwneud yn siŵr mai tir mynediad yw'r tir.

Gwneud yn siŵr nad ymdrinnir â'ch cyfyngiad arfaethedig yn barod dan un o'r cyfyngiadau cyffredinol (gweler adran 11.6).

Asesu a yw eich cynnig yn cynnwys y ffordd leiaf caeth o gyfyngu ar fynediad ar gyfer cwrdd â'ch angen chi, ac a oes modd ei weithredu heb fod baich gormodol yn syrthio ar eich ysgwyddau.

Wrth atal tân, fe fyddwn yn gwneud yn siŵr fod yr amodau'r tywydd yn rhai eithriadol, neu fod newid eithriadol wedi bod yng nghyflwr y tir.

Efallai y byddwn yn dymuno trafod eich cynnig gyda chi er mwyn dod i benderfyniad neu er mwyn trafod opsiynau eraill.

### 7.6. Ymgynghori

Os ydym yn cynnig cyflwyno cyfarwyddyd i gyfyngu ar yr hawl mynediad neu ei gwahardd am fwy na 6 mis, yn ôl y rheoliadau rhaid i ni yn gyntaf ymgynghori â'r fforwm mynediad lleol a'r sefydliadau a ganlyn:

Yr Awdurdod Unedol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n berthnasol i'ch ardal.
Cymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth (BASC)
Cyngor Mynydda Prydain (BMC)
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLBA)
Natural England (pan fo'r tir yn ffinio â Lloegr)
Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Cymdeithas y Mannau Agored (Open Spaces Society)
Cymdeithas y Cerddwyr

Fe fyddwn yn anelu at gytuno ar gyfarwyddyd arfaethedig â chi cyn mynd i'r afael â'r broses ymgynghori. Hefyd, byddwn yn anelu at gytuno gyda chi ar unrhyw ddiwygiadau sydd, yn ein barn ni, yn angenrheidiol ar ôl cynnal y broses ymgynghori.

## 8. Cyfarwyddiadau o ran Cyfyngu ar Fynediad neu ei Wahardd

Rydym yn cyfyngu ar yr hawl mynediad neu'n ei gwahardd trwy lunio 'cyfarwyddyd' sy'n disgrifio manylion ynghylch y cyfyngiad neu'r gwaharddiad. Felly, canlyniad ceisiadau llwyddiannus fydd cyfarwyddyd gan yr awdurdod perthnasol sy'n cyfyngu ar yr hawl mynediad neu'n ei gwahardd.

### 8.1. Eich hysbysu ynghylch ein penderfyniad

Os ydym wedi cytuno ar amrywiadau i'ch cais gyda chi, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich bod yn cytuno ar y cynnig terfynol cyn i ni lunio cyfarwyddyd neu ei anfon i ymgynghori yn ei gylch.

Pe baem yn amrywio'r cynnig heb eich cytundeb chi, fe fyddwn yn cyflwyno ein rhesymau dros wneud hyn yn ysgrifenedig.

Pe baem yn gwrthod eich cais, byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig ac yn cyflwyno ein rhesymau dros wneud hyn.

Gallwch apelio'n erbyn ein penderfyniad, fel yr esbonnir yn adran 9 y llyfryn hwn.

### 8.2. Manylion mewn cyfarwyddyd i gyfyngu ar fynediad neu ei wahardd

Fe fydd cyfarwyddyd yn nodi'r manylion a'r amodau a ganlyn:

- Y dyddiad y byddwn yn cyflwyno'r cyfarwyddyd.
- Darpariaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, sef y ddeddf y cyflwynir y cyfarwyddyd oddi tani (h.y. ar gyfer rheoli tir, osgoi perygl i'r cyhoedd neu atal tân).
- Map yn dangos y tir sy'n berthnasol i'r cyfyngiad neu'r gwaharddiad.
- Pa un a yw'r cyfarwyddyd yn cyfyngu ar yr hawl mynediad neu'n ei gwahardd ai peidio.
- Pan fo'n berthnasol, manylion ynghylch sut y cyfyngir ar yr hawl mynediad.
- Y dyddiadau y bydd y cyfyngiad neu'r gwaharddiad mewn grym.

### 8.3. Cyfarwyddiadau amlinellol i gyfyngu ar fynediad neu ei wahardd

Caiff y rhain eu gwneud yn union yr un ffordd â chyfarwyddiadau cyffredin, ond maent yn caniatáu hyblygrwydd o ran pryd y caiff y cyfyngiad neu'r gwaharddiad ei roi mewn grym. Byddwn yn defnyddio cyfarwyddiadau amlinellol pan fydd modd i ni nodi'r sefyllfaoedd sydd angen cyfyngiad neu waharddiad, ond pan na allwn fod yn sicr ynghylch pryd yn union y bydd y sefyllfaoedd hyn yn codi. Er enghraifft, efallai y byddwch yn gwybod faint o amser y bydd ei angen i gwblhau rhyw waith, ond efallai na fyddwch yn gwybod yn union pryd y gall y gwaith gychwyn.

Mae cyfarwyddyd amlinellol yn nodi'r un manylion â chyfarwyddyd cyffredin, yn ogystal â'r canlynol:

- Uchafswm y nifer o ddyddiau y gallwch gyfyngu ar yr hawl mynediad neu ei gwahardd.
- Y cyfnod neu'r cyfnodau y gallwch gyfyngu ar yr hawl mynediad neu ei gwahardd.

- Yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gallwch gyfyngu ar yr hawl mynediad neu ei gwahardd.
- Cadarnhad bod gan y sawl sy'n gwneud cais yr hawl i benderfynu pryd y bydd yr amodau wedi eu bodloni a rhoi'r cyfyngiad neu'r gwaharddiad mewn grym.
- Faint o rybudd y mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais ei gyflwyno i'r awdurdod perthnasol cyn i'r cyfarwyddyd neu'r gwaharddiad ddod i rym.

## 8.4. Adolygu a newid cyfarwyddiadau i gyfyngu ar fynediad neu ei wahardd

Rhaid i ni adolygu unrhyw gyfarwyddiadau hirdymor ar ôl pum mlynedd.

Hefyd, fe allwn ddiddymu neu newid unrhyw gyfarwyddyd unrhyw dro.

Pe baem yn penderfynu diddymu neu newid cyfarwyddyd am ryw reswm, rhaid i ni ymgynghori â'r ymgeisydd gwreiddiol, cyn belled â'i bod yn ymarferol i ni wneud hyn. Os nad oes gan yr ymgeisydd gwreiddiol fudd yn y tir bellach, rhaid i ni ymgynghori ag unrhyw un sydd â budd yn y tir, cyn belled â'i bod yn ymarferol i ni wneud hyn.

Byddwn yn diddymu neu'n newid cyfyngiad neu waharddiad trwy lunio cyfarwyddyd newydd sy'n disodli'r cyfarwyddyd presennol ac sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- Y dyddiad y byddwn yn cyflwyno'r cyfarwyddyd newydd.
- Darpariaeth y Ddeddf y cyflwynir y cyfarwyddyd oddi tani (h.y. ar gyfer rheoli tir, osgoi perygl i'r cyhoedd neu atal tân).
- Copi o'r cyfarwyddyd a gaiff ei ddiddymu neu ei newid.
- Pa un a yw'r cyfarwyddyd yn diddymu neu'n newid y cyfarwyddyd presennol ai peidio.
- Os yw'n berthnasol, manylion y newidiadau.

## 8.5. Rhoi gwybod i eraill am gyfarwyddiadau

Mae pwy arall a gaiff ei hysbysu yn dibynnu ar bwy yw'r awdurdod perthnasol.

Os mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod perthnasol, rhaid iddo hefyd anfon copi o'r cyfarwyddyd at y canlynol: Yr Awdurdod Unedol neu awdurdod y Parc Cenedlaethol os oes un ac unrhyw un y mae'n rhaid iddo ymgynghori ag ef.

Os mai'r awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod perthnasol, rhaid iddo hefyd anfon copi o'r cyfarwyddyd at y canlynol: Yr Awdurdod Unedol ac unrhyw un y mae'n rhaid iddo ymgynghori ag ef.

## 9. Apeliadau

### 9.1. Rhesymau dros apelio

Fe all rhywun sydd wedi gwneud cais apelio pe baem yn penderfynu peidio â chyfyngu ar, neu wahardd yr hawl mynediad mewn unrhyw ffordd yn unol â'r cais.

Hefyd, fe all y sawl sydd wedi gwneud cais, neu unrhyw berson newydd sydd wedi cymryd y budd yn y tir, gyflwyno apêl pe baem yn diddymu neu'n newid cyfarwyddyd mewn ffyrdd nad ydynt yn unol ag unrhyw sylwadau a gyflwynwyd i ni ganddo ef neu hi pan roddwyd y broses ymgynghori ar waith.

### 9.2. Sut i apelio

Dylech gyflwyno apêl yn ysgrifenedig ar ffurflen swyddogol. Gallwch ofyn am ffurflen o'r fath gan Yr Arolygiaeth Gynllunio neu ei lawrlwytho o'u gwefan. Yr Arolgiaeth Gynllunio sy'n ystyried apeliadau ar ran Gweinidogion Cymru.

Gallwch ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch sut i apelio trwy gysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio.

### 9.3. Terfynau amser yr apeliadau

Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl pan fyddwn yn anfon y cyfarwyddyd atoch neu'n eich hysbysu ein bod wedi gwrthod eich cais. Bydd y terfyn amser yn 6 wythnos o'r dyddiad y byddwn yn cyflwyno'r cyfarwyddyd.

Fe fydd Yr Arolygiaeth Gynllunio yn anfon copi o'ch apêl atom cyn gynted â phosibl ar ôl cadarnhau bod eich apêl yn ddilys. Rhaid i ni nodi o fewn 14 diwrnod a ydym yn bwriadu herio eich apêl ai peidio. O fewn tair wythnos arall, fe fydd Yr Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi gwybod i chi a ninnau am yr amserlen ar gyfer prosesu'r apêl. Fe gymer o leiaf 17 wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw i'r gael penderfyniad yn dilyn proses o gyflwyniadau ysgrifenedig.

### 9.4. Canlyniadau'r apeliadau

Fel arfer, fe fydd Yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwneud un o'r canlynol:

- Yn cefnogi eich apêl yn llwyr, ac yn ein cyfarwyddo i lunio cyfarwyddyd yn union fel y nodir yn eich cais.
- Yn cytuno â'ch cais yn rhannol, ac yn ein cyfarwyddo i lunio cyfarwyddyd sy'n gwahardd yr hawl mynediad neu'n cyfyngu arni yn unol â rhai o'r ffyrdd a nodir yn eich cais.
- Yn diystyru eich apêl, fel na fyddwn yn cyfyngu ar yr hawl mynediad o gwbl.

## 10. Rhoi Gwybod I'r Cyhoedd

### 10.1. Y we

Fe fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi'r holl gyfyngiadau a'r holl waharddiadau ar wefan, os nad yw'n anymarferol i wneud hynny. Fel arfer, fe fydd gwneud hyn yn ymarferol, ac eithrio pan fyddwn yn derbyn hysbysiad yn sôn am yr union ddyddiadau yn rhy hwyr i newid y manylion ar y wefan mewn pryd.

### 10.2. Arwyddion

Os ydych yn dymuno gorfodi cyfyngiad neu waharddiad, chi sy'n gyfrifol am hysbysu'r cyhoedd allan ar y tir yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Cyfyngiad neu waharddiad sy'n defnyddio'r opsiwn 28 diwrnod dewisol.
- Cyfyngiad wyna.
- Cyfyngiad rhostiroedd grugieir.
- Cyfyngiad neu waharddiad y gwnaethoch gais amdano ac sy'n para am hyd at 6 mis.

Gallwch ddweud wrth bobl ar lafar neu godi arwyddion mewn mannau y gall pobl sy'n dod ar eich tir eu gweld. Byddwn fel rheol yn anfon hysbysiad safonol atoch wrth i ni gydnabod eich hysbysiad, neu pan fyddwn yn cyflwyno cyfarwyddyd i gyfyngu ar fynediad neu ei wahardd.

Yr awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am ddweud wrth y cyhoedd allan ar y tir am unrhyw gyfyngiadau sy'n para am fwy na 6 mis. Byddwn yn trefnu â chi pa fannau yw'r mannau gorau i godi hysbysiadau.

## 11. Gwybodaeth Gyffredinol

### 11.1. Cyfrifoldeb meddianwyr ar dir mynediad

Ni cheir dehongliad terfynol o'r gyfraith yn y fan yma. Efallai y byddwch angen ceisio cyngor cyfreithiol.

Os mai chi yw perchennog y tir neu'r sawl sy'n ei ffermio, fe allwch hefyd fod yn feddiannwr at ddibenion cyfrifoldeb meddianwyr. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech geisio cyngor cyfreithiol.

Gall rhywun a gaiff ei anafu ar y tir, neu sy'n dioddef niwed o ganlyniad i beryglon ar y tir sy'n deillio o'i gyflwr neu o rywbeth a wnaed neu a fethwyd â'i wneud ar y tir, erlyn meddiannwr tir.

Caiff cyfrifoldeb meddianwyr ei reoli gan Ddeddf Cyfrifoldeb Meddianwyr 1957 a 1984. Dan Ddeddf 1957, mae gennych ddyletswydd gofal dros y bobl yr ydych yn eu gwahodd ar eich tir. Rhaid i chi geisio eich gorau i sicrhau y bydd ymwelwyr o'r fath yn rhesymol o ddiogel wrth iddynt wneud yr hyn yr ydych chi wedi caniatáu iddynt ei wneud ar eich tir. Os yw pobl yn derbyn y risg a all ddod i'w rhan ar eich tir, nid chi fydd yn gyfrifol pe baent yn cael eu hanafu neu'n dioddef niwed arall o ganlyniad i'r risg honno.

Caff y cyfrifoldeb tuag at bobl nad ydynt yn ymwelwyr eu nodi yn Neddf Cyfrifoldeb Meddianwyr 1984. Mae gennych ddyletswydd gofal dros y bobl nad ydych wedi eu gwahodd ar eich tir (e.e. tresmaswyr). Os ydych yn gwybod bod perygl i'w gael, yna rydych yn gwybod y gallant ddod ar ei draws, a byddai'n rhesymol i chi eu diogelu rhag y perygl hwnnw. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylech gymryd gofal i sicrhau nad ydynt yn cael eu hanafu o ganlyniad i'r perygl ar eich tir.

Mae Deddf Cefn Gwlad Hawliau Tramwy yn newid y safbwynt cyffredinol sy'n ymwneud â chyfrifoldeb meddianwyr mewn perthynas â thir mynediad. Yn gyntaf, nid ymwelwyr y meddiannwr at ddibenion cyfrifoldeb meddianwyr yw'r rhai sy'n defnyddio'u hawliau mynediad dan y Ddeddf. Ac, yn ail, nid oes gan feddianwyr unrhyw ddyletswydd gofal dros y rhai sy'n defnyddio'u hawliau ar eu tir o ran y risgiau sy'n codi yn sgîl nodweddion naturiol neu'n sgîl afonydd, nentydd, ffosydd neu byllau dŵr, boed y rhain yn naturiol ai peidio, neu yn sgîl camddefnyddio waliau, ffensys, giatiau neu gamfeydd os nad yw'r meddiannwr yn creu'r risg yn fwriadol neu'n caniatáu i'r risg godi'n ddiofal.

Wrth benderfynu sut ddyletswydd gofal sydd gan y meddiannwr ar dir mynediad, fe fydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried:

- Y ffaith na ddylai bodolaeth yr hawl mynediad roi baich ariannol gormodol neu faich arall gormodol ar y meddiannwr.
- Y pwysigrwydd o gynnal cymeriad cefn gwlad, gan gynnwys nodweddion hanesyddol ac archeolegol.
- Unrhyw arweiniad perthnasol a roddir mewn codau ymddygiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru. yn cynnwys y côd cefn gwlad.

### 11.2. Sut gall gwaharddiadau a chyfyngiadau effeithio ar gyfrifoldebau

**meddianwyr?**

Er bod y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn lleihau dyletswydd gofal y meddiannwr tuag at bobl ar dir mynediad, mae hyn ond yn wir pan fo'r hawl mynediad heb ei chyfyngu.

Pan fydd cyfyngiad neu waharddiad mewn grym ac yn effeithio ar hawl mynediad, fe fydd dyletswydd gofal y meddiannwr yr un fath ag ar unrhyw dir arall.

### 11.3. Asesu risg

Dylech ystyried y risgiau posibl a allai ddod i ran y cyhoedd fel rhan o'ch asesiad risg, sef asesiad y mae'n rhaid i bob cyflogwr a phobl hunangyflogedig sy'n rhedeg busnes eu cynnal er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

### 11.4. Llwybrau â hawliau tramwy cyhoeddus

Nid yw'r pwerau i wahardd neu gyfyngu ar fynediad yn effeithio o gwbl ar lwybrau â hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi tir mynediad.

### 11.5. Caniatâd arall

Nid yw gwahardd neu gyfyngu ar hawl mynediad yn gyfystyr â, neu'n awgrymu bod caniatâd i fynd i'r afael ag unrhyw weithgareddau neu weithrediadau ar y tir. Fe fydd yn rhaid i chi gael caniatâd o'r fath gan yr awdurdodau priodol cyn bwrw ymlaen â'r gwaith.

### 11.6. Cyfyngiadau cyffredinol

Mae'r hawl mynediad i fynd ar dir yn ymwneud â hamddena awyr agored. Yn atodlen 2 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) ceir y rhestr ganlynol, sy'n nodi'r cyfyngiadau cyffredinol ac sy'n cadarnhau pa weithgareddau sydd heb fod yn rhan o'r hawl. Fe fyddai unrhyw un sy'n mynd i'r afael â'r gweithgareddau hyn heb ganiatâd y perchennog neu'r meddiannwr yn tresmasu, ac felly efallai y byddai gofyn iddo adael y tir neu ddychwelyd i'r llwybr cyhoeddus agosaf. Mae nifer o'r cyfyngiadau cyffredinol yn bethau y gellir delio â nhw dan ddeddfau eraill.

- Gyrru unrhyw gerbyd ac eithrio cerbyd person anabl.
- Gwersylla.
- Defnyddio synhwyrydd metel.
- Gemau wedi eu trefnu.
- Gweithgareddau masnachol.
- Ymdrochi, nofio neu ddefnyddio cwch neu hwylfwrdd ar ddŵr heb lanw, fel llyn.
- Mynd ag unrhyw anifail, ac eithrio ci.
- Bwydo da byw
- Cynnau tân neu wneud rhywbeth a allai arwain at dân.
- Hela, saethu neu bysgota, dal, maglu neu gario unrhyw offer ar gyfer y dibenion hyn.
- Gwneud niwed i'r tir neu niweidio unrhyw beth ar y tir, fel planhigion, coed, cnydau,ffensys neu waliau.
- Cymryd unrhyw beth oddi ar y tir.
- Tarfu, niweidio neu ladd da byw neu fywyd gwyllt.

- Cymryd, difrodi neu ddinistrio unrhyw wyau neu nythod
- Atal llif cyrsiau dŵr a draeniau.
- Gadael giatiau'n agored (ac eithrio pan fo'n rhesymol tybio bod angen gadael giât yn agored).
- Gosod hysbysebion.
- Atal llwybr, gwylltio, tarfu neu godi ofn ar bobl sy'n ymhel â gweithgaredd cyfreithlon
- Cyflawni trosedd.

## 11.7. <u>Nodi tir mynediad CRoW</u>

Nid oes mynediad i'r mathau canlynol o dir, hyd yn oed os ydynt yn ardaloedd a ddangosir fel cefn gwlad agored a thir comin cofrestredig ar fap a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, neu hyd yn oed os ydynt wedi eu cyflwyno fel tir mynediad gan y perchennog.

- adeiladau, a'r tir sy'n union o'u hamgylch (yn cynnwys pebyll a charafanau);
- tir o fewn 20 metr o dŷ neu adeilad annedd parhaol;
- parciau a gerddi
- chwareli gweithredol a gwaith tynnu mwynau arwynebol (yn cynnwys cloddio mawn yn fasnachol);
- rheilffyrdd a thramffyrdd;
- meysydd golff, meysydd awyr a chaeau rasio;
- tir sydd heb fod yn un o'r categorïau uchod ac sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion statudol neu delathrebu, yn cynnwys terfynau'r tir hwn (mae hyn yn cynnwys strwythurau i wasanaethu'r cyhoedd, fel is-orsafoedd trydan a mastiau teleffonau);
- tir sydd yn y broses o gael ei ddatblygu ar gyfer un o'r dibenion uchod;
- tir o fewn 20 metr i adeilad parhaol sy'n cael ei ddefnyddio i gadw da byw, oni bai bod rhaid i chi ddefnyddio giât, camfa neu lwybr cyhoeddus er mwyn cyrraedd y tir mynediad agored;
- corlannau pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio i gadw da byw;
- tir sy'n cael ei ddefnyddio i hyfforddi ceffylau rasio, ond dim ond rhwng toriad gwawr a chanol dydd, ac ar adegau eraill pan fydd y tir wrthi'n cael ei ddefnyddio i hyfforddi ceffylau rasio;
- tir a reolir gan is-ddeddfau dan Ddeddfau Tiroedd Milwrol 1892 a 1900;
- tir sydd wedi cael ei aredig neu ei ddrilio yn ystod y 12 mis blaenorol gyda'r bwriad o hau cnydau neu blannu coed.

Mae'r mathau canlynol o dir yn hygyrch dan ddeddfwriaethau eraill, ac nid yw'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol iddynt mewn unrhyw ffordd.

- Mae gan diroedd comin cofrestredig a oedd yn rhannol, o leiaf, o fewn un o'r hen Gynghorau Dosbarth Trefol neu Fetropolitan, hawliau mynediad dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925.
- Tiroedd comin cofrestredig a gyflwynwyd fel tir mynediad cyhoeddus dan yr un Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys tiroedd comin y Goron a thiroedd comin sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Tiroedd comin cofrestredig â chynlluniau dan Ddeddf Tir Comin 1899 sy'n cynnwys mynediad cyhoeddus.

- Ardaloedd, fel cronfeydd dŵr Cwm Elan, lle caniateir mynediad cyhoeddus drwy ddeddf leol neu breifat.
- Tir â chytundeb neu orchymyn mynediad dan Ran V Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.
- Cofadeiliau dan reolaeth gyhoeddus y mae gan y cyhoedd hawl i fynd atynt dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 19